OCR
RECOGNISING ACHIEVEMENT

**DYFARNIAD UWCH ESTYNEDIG** **9914**

# BUSNES

**DYDD GWENER 29 MEHEFIN 2007**

Bore

Amser: 3 awr

Deunyddiau ychwanegol: Llyfryn Ateb (8 tudalen)
Astudiaeth Achos

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

- Ysgrifennwch eich enw, rhif y Ganolfan a'ch rhif Ymgeisydd yn y lleoedd gwag ar y llyfryn ateb.
- Ysgrifennwch eich atebion, mewn inc glas neu ddu, yn y llyfryn ateb ar wahân.
- Argymhellir y dylech dreulio hyd at 60 munud yn darllen ac yn anodi'r deunydd yn yr *Astudiaeth Achos*. Disgwylir i chi gyfeirio at y deunydd hwn yn eich atebion.
- Rhaid i chi ateb y cwestiwn gorfodol yn Adran A ac **un** rhan o gwestiwn o Adran B. Ni ddylai fod angen i chi dreulio mwy na 60 munud ar y naill ateb na'r llall.
- Darllenwch bob adran yn ofalus a gwnewch yn siwr eich bod yn gwybod beth mae'n rhaid i chi ei wneud cyn dechrau eich ateb.
- Ni chewch ddod â llyfrau, geiriaduron na ffynonellau cyfeirio ar wahân i'r deunydd yn yr *Astudiaeth Achos* i'r arholiad. Fodd bynnag, yn eich atebion, cewch gyfeirio at unrhyw ffynonellau neu ddeunydd yr ydych wedi'u hastudio ar gyfer Astudiaethau Busnes TAG/Busnes TAG Gymhwysol Uwch.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

- Mae nifer y marciau sydd ar gael wedi'i nodi mewn cromfachau [ ] ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.
- Mae pob cwestiwn yn werth 20 o farciau. 40 yw cyfanswm y marciau ar gyfer y papur hwn.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys **3** tudalen brintiedig ac **1** dudalen wag.


© OCR 2007 [100/4654/9] Mae OCR yn elusen eithriedig
**[Trowch y dudalen**

## GlaxoSmithKline, GSK

**Darllenwch bob un o'r darnau yn y deunydd Astudiaeth Achos, ac yna atebwch y cwestiwn gorfodol o Adran A ac UN rhan o gwestiwn o Adran B.**

### Adran A

1 Mae GSK yn cael ei ystyried yn gwmni sy'n "ymrwymedig i helpu pobl o amgylch y byd i fyw yn hirach, teimlo'n well a gwneud mwy".

"Pan fo cynifer o bobl yn marw yn sgil y tlodi gwaethaf yn y byd, sut gall unrhyw gwmni sydd â chalon anelu at wneud elw ar eu traul nhw?"

I ba raddau y gellir ystyried bod GSK yn gwmni da? **[20]**

### Adran B

2 Argymhellwch, a chyfiawnhewch, strategaeth y gallai GSK ei mabwysiadu yng ngoleuni **UN** o'r sefyllfaoedd canlynol

Naill ai **(i)** GSK yn cael cymeradwyaeth gan y llywodraeth ar gyfer gwerthu pilsen colli pwysau;

Neu **(ii)** gostyngiad yn niferoedd y graddedigion mewn gwyddoniaeth yn y DU;

Neu **(iii)** gostyngiad yng nghyllidebau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG);

Neu **(iv)** pwysau gan gyfranddalwyr i gynyddu enillion. **[20]**

© OCR 2007

**TUDALEN WAG**

© OCR 2007

Lle bo’n bosibl, ceisiwyd a chliriwyd caniatâd i atgynhyrchu eitemau lle y cynhwysir deunydd sy’n berchen i drydydd parti ac sydd wedi’i warchod gan hawlfraint. Gwnaed pob ymdrech rhesymol gan y cyhoeddwr (OCR) i olrhain deiliaid hawlfraint, ond os oes unrhyw eitemau y mae angen eu clirio wedi’u cynnwys yn anfwriadol, bydd y cyhoeddwr yn falch o wneud iawn am hyn ar y cyfle cyntaf posibl.

Mae OCR yn rhan o’r Cambridge Assessment Group. Cambridge Assessment yw enw brand University of Cambridge Local Examinations Syndicate (UCLES), sydd yn adran o Brifysgol Caergrawnt

© OCR 2007 